

Cyngor Tref Amlwch Town Council

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth Hydref 27 yn Siambr y Cyngor am 7 o'r gloch.
Minutes of the meeting held at the Council Chamber on Tuesday October 27 at 7pm.

Presennol/Present: Gareth W Roberts OBE (Cadeirydd/Chair), T Gwynn Jones, Myrddin Owens, Helen Hughes, Miriam Sanders, Wayne Jones, Gordon Warren

Cynghorwyr Sirol/County Councillors: Cyng/Cllr Richard Jones

Yn bresennol / In attendance: Carli Evans-Thau (Clerc/Clerk), Hywel Hughes (Cyfieithu/Translation)

Ymddiheuriadau/Apologies: Marilyn Hughes (Clerc/Clerk), Val Roberts, Mike Roberts, Nige Ault, Meg Roberts, Liz Connelly, Cyng/Cllr Wil Hughes, Cyng/Cllr Aled M Jones

1 Croeso/Welcome

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Gareth W Roberts OBE. Nodwyd bod Meg Roberts wedi colli ei mham yn ddiweddar ac fe gafwyd munud o ddistawrwydd er cof. Mae llythyr o gydymdeimlad ar ran y Cyngor eisoes wedi ei anfon.

The meeting was chaired by Gareth W Roberts OBE. It was noted that Meg Roberts has recently lost her mother, and members gave a minute silence as a mark of respect. A letter of condolence has already been sent on behalf of the Council.

2 Datgan diddordeb/Declaration of interest

Neb / None

3 Cofnodion y cyfarfod diwethaf/Minutes of the last meeting

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir. Cynnig Gwynn Jones, eilio Helen Hughes /*The minutes were confirmed a true record. Proposed by Gwynn Jones, seconded by Helen Hughes.*

4 Materion yn codi/Matters arising

4.1 4.1 - Cadarnhawyd mai tuag at y Swyddfa Bost oedd 'Pwynt 7' yn cyfeirio, bydd diweddariad yn bellach ymlaen yn y cyfarfod (Unrhyw Fater Arall).

4.1 – It was confirmed that 'Point 7' referred to the Post Office, an update will be given later on in the meeting (Any Other Business).

4.2 Banc Bwyd / Food Bank

Yn dilyn cyfarfod gyda rheini sydd yn cynnal y banc bwyd, daw i'r amlwg eu bod wedi, yn ein barn ni, eu cam-arwain ac mae nifer o broblemau dan y gwyneb. Os am i'r Cyngor Tref eu cefnogi a cheisio delio a rhai o'r problemau mae angen iddynt gysylltu eto i drefnu cyfarfod gan ddod a'r wybodaeth a'r dogfennau angenrheidiol gyda nhw. Nid ydynt wedi gwneud hynnu hyd yma.

Following a meeting with those running the food bank, it has come to light that they have in our opinion been mis-guided and that a number of issues lie under the surface. Should they wish the Town Council to support them and attempt to address some of the issues, they are to contact the office to arrange a further meeting, bringing with them the relevant information and documents. There has been no contact as yet.

4.3 **Garej Glanrhos Garage**

Deallwyd bod peth deunydd wedi ei symud erbyn hyn. / *It was understood that some materials had by now been moved.*

5 Pwyllgorau allannol/External meetings

5.1 **Wylfa Newydd**

Nid yw Val Roberts pob amser yn gallu mynychu'r cyfarfodydd ac fe ddymunai i aelod arall gynrychioli'r Cyngor. Penodwyd Myrddin Owens i wneud hynnu.

Val Roberts cannot attend all the meetings and as such would like another member to represent the Council. Myrddin Owens was appointed to do so.

5.2 **Fforwm Cyngorau Tref a Chymuned / Town and Community Councils Forum**

Cawfyd adroddiad gan Gwynn Jones wedi iddo fynychu cyfarfod yn Llangefni. Deallwyd bod y Cyngor Sir yn edrych ar wahanol ffyrdd o drosgwyddo cyfrifoldebau i'r Cyngorau Tref/Cymuned.

Gwynn Jones gave a report having attended the meeting at Llangefni. It was understood that the County Council is looking at different ways of transferring responsibility to the Town/Community Councils.

5.3 **Un Llais Cymru / One Voice Wales**

Cafwyd adroddiad gan Gwynn Jones wedi iddo fynychu'r cyfarfod. Cafwyd drafodaeth gyda Dr Gwynne Jones ac Ieuan Williams ynglyn a throsgwyddo cyfrifoldebau'r Cyngor Sir i'r gymuned yn gyffredinol. Fe ofynnwyd a fyddai unrhyw gymorth ariannol a/neu adnoddau ar gael i gefnogi'r cyngorau cymuned gyda'r cyfrifoldeb ychwanegol. Cafwyd wedyn trafodaeth am wrthwynebu peilonau ar yr ynys.

Gwynn Jones gave a report having attended the meeting. A discussion with Dr Gwynne Jones and Ieuan Williams regarding the transfer of County Council responsibilities to the community. The question was raised whether any additional resources/finances would be made available to support the community councils with the additional responsibilities. There then followed a discussion opposing pylons on the island.

5.4 **Rhyd y Groes**

Cafwyd grynodedb gan Gareth W Roberts o gyfarfod a gynhaliwyd gan Gyngor Cymuned Llanbadrig gyda swyddogion adran gynllunio Cyngor Sir Ynys Mon i drafod pryderon ynglyn ag ail ddatblygiad y fferm wynt. Cytunwyd ysgrifennu llythyr ar y cyd yn gofyn i'r cwmni edrych ar chwech tyrbîn penodol. Trafodwyd hefyd yr angen i dir feddianwyr gyfrannu i'r gymuned yn ogystal a'r datblygwyr.

Gareth W Roberts gave an overview of a meeting with County Council planning officers held by Llanbadrig Community Council to discuss concerns regarding the re-development of the wind farm. It was agreed to write a joint letter asking the company to look at six specific turbines. The requirement for landowners to contribute to the community as well as the developer was also discussed.

5.5 **Trefi Mon**

Mae'r systemau CCTV wedi eu lawnsio'n swyddogol erbyn hyn ac yn weithredol. Cafwyd drafodaeth ynglyn a'r posibilrwydd o gyfrifoldebau ychwanegol gan y Cyngor Sir ond nid oes gwybodaeth pellach ar hyn o bryd. Deallwyd bod y Bartneriaeth wedi enill gwobr gan Gomisiynydd yr Heddlu am Bartneriaeth Gorau Gogledd Cymru. Cydnabyddwyd cyfraniad arian yr Ymddiriedolaeth Elusennol tuag at y prosiect.

The CCTV systems are now operational and have been officially launched. A discussion took

place regarding the possibility of additional responsibilities from the County Council but no further information is available at present. It was understood that the Partnership has been awarded the Best Partnership title by the Commissioner of North Wales Police. The financial contribution made by the Charitable Trust was acknowledged.

6 Adroddiad Pwyllgor Cyllid/Finance Committee Report

Nodwyd bod y taliadau uniongyrchol wedi eu cadarnhau erbyn hyn. Os bydd unrhyw aelod o'r Cyngor am weld y cyfrifon neu adroddiad gyllidol, mae posib gwneud hynnu drwy gysylltu a'r clerch a threfnu dod i'r swyddfa. Mae'r holl daliadau yn cael eu scrwtineiddio gan y pwyllgor cyllid.

It was noted that all direct debit payments have now been confirmed. Should any member of the Council wish to see the accounts or financial reports they are welcome to do so by contacting the clerk and arranging to come to the office. All payments are scrutinized by the finance committee.

7 Cynllunio/Planning

7.1 Penderfyniadau/Decisions

Ty'r Wennol Bull Bay Road – Caniatad/Granted
Cae Rheinws, Pen y Bonc – Caniatad/Granted

7.2 Ceisiadau/Applications

Nid oedd ceisiadau i'w trafod / *There were no applications to discuss.*

8 Gohebiaeth/Correspondence

8.1 Arwel Hughes

Cafwyd ebost gan Arwel Hughes yn datgan ei fwriad i ymddiswyddo fel aelod o'r Cyngor am resymau personol. Mae llythyr wedi ei anfon ato ar ran y Cyngor i ddiolch iddo am ei gyfraniad a dymuno'r gorau iddo at y dyfodol.

An email received from Arwel stated his wish to resign as a member of the council for personal reasons. A letter has been sent to him on behalf of the Council to thank him for his contribution and to wish him all the best for his future.

8.2 Marilyn Hughes

Cafwyd lythyr gan Marilyn Hughes yn datgan ei bwriad i ymddiswyddo o'i swydd fel Clerc y Cyngor ar ddiwedd mis Tachwedd yn dilyn cyfnod o salwch. Mae Marilyn wedi ymgymryd a'r swydd ers chwarter canrif ac fe fydd colled ar ei hol. Cytuno dyliai'r Cyngor drefnu noson o ddiolch i ddangos gwerthfawrogiad.

A letter was received from Marilyn Hughes stating her wish to resign from her position as Council Clerk at the end of November following a period of illness. Marilyn was appointed as clerk 25 years ago and she will be missed. It was agreed the Council will arrange an evening to show appreciation and thanks.

8.3 Llwybr yr Arfordir / Coastal Path

Mae'r Cyngor Sir yn gofyn caniatad i osod arwyddion ar gyfer y llwybr ym mhalmentydd Porth Llechog. Nid oedd gwrthwynebiad.

The County Council have asked approval to fit way markers in the pavement at Bull Bay. There was no objection.

8.4 Grid Cenedlaethol / National Grid

Mae ymgynghoriad diweddaraf y Grid yn cymryd lle ar hyn o bryd. Byddent yn cynnal sesiwn gwybodaeth yn y Neuadd Goffa Tachwedd 20.

The National Grid's consultation is currently taking place. An information session will take place at the Memorial Hall on November 20th.

9 Unrhyw fater arall/Any other business

9.1 Oriau Agor y Swyddfa / Office Opening Times

Mae'r Swyddfa ar hyn o bryd ar agor i'r cyhoedd rhwng 10-2 pob dydd Llun. Mae poster wedi ei

arddangos yn yr hysbysfwrdd er gwybodaeth. Cynnigwyd bod poster tebyg yn cael ei arddangos ar y drws hefyd.

Mae'r Clerc dros dro wedi cytuno gweithio hyd diwedd y flwyddyn ariannol pan fydd angen arolygu'r sefyllfa bresennol cyn hysbysebu'r swydd yn swyddogol.

The office is at present open to the public between 10-2 on a Monday. A poster has been displayed in the notice board for information. It was proposed that the poster is also displayed on the office door.

The temporary clerk has agreed to cover the position up until the end of the financial year as current situation is to be reviewed and assessed before the position is advertised officially.

9.2 **Goleuadau Borth Amlwch / Amlwch Port Lighting**

Codwyd cwestiwn gan Wayne Jones ynglyn a cyflwr y goleuadau ym Mhorth Amlwch. Ar ol cryn drafodaeth ynglyn a'r sefyllfa, cytuno gofyn i Cyng Richard Jones , ar ran Cyngor Tref Amlwch gael trafodaeth gyda'r Cyngor Sir fel y corff sydd yn gyfrifol am oleuadau stryd. Cafwyd eglurhad bod goleuadau'r parc yn hollol arwahan. Disgwylir i Cyng Jones adrodd yn ol yn y cyfarfod nesaf.

Wayne Jones raised the question regarding the current situation of lighting at Amlwch Port. Following some discussion it was agreed that Cllr Richard Jones, on behalf of the town Council, contact the County Council being the responsible body for street lighting. An explanation was given that the lights in the park are totally independent to street lighting. Cllr Jones was expected to feed back at the next meeting.

9.4 **Swyddfa Bost / Post Office**

Pwysleiswyd mai prif nod y Cyngor Tref oedd sicrhau bod Swyddfa Bost yn parhau yn y dref, ym mha bynnag adeilad sydd fwyaf addas. Deallwyd bod Cyng Richard Jones wedi bod mewn cysylltiad a'r Swyddfa Bost cyn cyfarfod ar y cyd gyda Chyngor Tref Amlwch. Deallwyd ganddo nad oedd weci clywed gan y Swyddfa Bost yn dilyn y cyfarfod yma.

Nodwyd siom bod ffigyrau cyfrinachol wedi eu trafod y tu allan i'r Siambr gan ei bod wedi ei wneud yn glir yn y cyfarfod beth oedd natur y wybodaeth oedd i'w drafod. Fe ofynnwyd i Cyng Richard Jones drafod y datganiad a wnaed mewn ebost all effeithio ar y buddsoddiad. Cytunodd Cyng Jones y byddai yn cysylltu a'r Cadeirydd cyn gynted a phosib i drafod yr ebost.

It was emphasised that the Town Council's aim is to secure the Post Office Service in the town, in whichever building is deemed most suitable. It was understood that Cllr Richard Jones had been in contact with the Post Office, prior to the joint meeting with himself and the Town Council. Cllr Richard Jones stated that he had not heard anything from the Post Office since the joint discussion.

It was disappointing to note that confidential figures had been discussed outside the chamber as it was stated clearly the nature of the information discussed. It was requested that Cllr Richard Jones discuss the statement made in the email that could affect the investment. Cllr Jones agreed to contact the Chair as soon as possible to discuss the email.

9.5 **Gareth Roberts ('Gareth Baker')**

Cafwyd grynoded gan Myrddin Owens o sefyllfa bresennol Gareth Roberts. Deallwyd bod cyfarfod wedi ei gynnal gyda chynrychiolaeth o'r Cyngor Sir a Bwrdd Iechyd Besti Cadwaladr ond nad oedd y swyddogion hynnu gyda'r hawl i wneud penderfyniadau. Deallwyd bod cynrychiolaeth o'r bwrdd iechyd yn barod i drafod ond nad oedd ymateb hyd yma gan y Cyngor Sir. Fe ofynnodd Myrddin Owens i Cyng Richard Jones os oedd wedi derbyn ebost ynglyn a'r mater. Dywed Cyng Jones nad oedd wedi derbyn ebost ac nad oedd yn ymwybodol o'r sefyllfa. Cytunwyd y byddai Cyng Richard Jones yn trefnu cyfarfod yn Amlwch i'r cynrychiolwyr o'r Gwasanaeth Gymdeithasol a Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr i drafod y ffordd ymlaen. Cytuno byddai Gareth W Roberts yn mynychu petai Myrddin Owens dim ar gael.

Myrddin Owens gave a short summary of Gareth Roberts' current situation. It was understood that a meeting had been held with representatives from the County Council and the Betsi

Cadwaladr Health Board but those officers did not have the authorisation to make decisions. It was understood that representatives of the health board were ready to hold another meeting but no response had been received as yet from the County Council. Myrddin Owens asked Cllr Richard Jones had he received an email regarding the matter. Cllr Jones stated that he had not received an email and was not aware of the situation. It was agreed that Cllr Richard Jones arrange a meeting in Amlwch between representatives of the Social Services and Betsi Cadwaladr Health Board to discuss the way forward. Agreed that Gareth W Roberts attend should Myrddin Owens not be available.

9.6 **Cyngor Sir Ynys Mon / Anglesey County Council**

Nodwyd bod tir 'Shell', safle Rhosgoch wedi ei werthu erbyn hyn. Nid yw yn glir ar hyn o bryd beth yw'r cynlluniau ar gyfer y safle. Bydd angen i'r datblygwyr, a Horizon datblygwyr Wylfa Newydd edrych yn fanwl ar wella'r A5025 rhwng Amlwch a Chemaes. Mae synnwyr cyffredin yn datgan y byddai pobl yn defnyddio'r lon i fynd i'w gwaith gyda Wylfa Newydd.

It was noted that the 'Shell' site at Rhosgoch had been sold. It is unclear as yet what the plans are for the site. The developer, and Horizon the developer for Wylfa Newydd, will need to look closely at improvements to the A5025 between Amlwch and Cemaes. Common sense dictates that people will be using the road to go to work at Wylfa Newydd.

9.7 **Presenoldeb / Attendance**

Fe gwestiynnwyd presenoldeb rhai aelodau ac fe nodwyd siom ym mhresenoldeb y Cyngor yn ei gyfarwydd. Fe ofynnwyd os oedd modd cynnig enwau i gymryd lle y rheini oedd ddim yn mynychu'r cyfarfodydd ond fe esbonwyd bod proses gyfreithiol i'w ddilyn i benodi aelod newydd.

Esboniwyd y costau sydd ynghlwm ag etholiad a'r system cyfethol a chytuno y byddai'r Cyngor yn asesu'r sefyllfa.

The attendance of some members was questioned, and disappointment in the Council's attendance record in general noted. It was asked whether it was possible to nominate individuals to replace those who do not attend, but it was explained that there is a legal process to follow before any appointment is made.

The costs relating to an election and the co-opting system was explained and it was agreed that the Council would review the situation.

9.8 **Maes Chwarae Maes Llwyn Play Area**

Daw cais i wella'r maes chwarae – mae trigolion wedi gofyn ar yr hawl i godi arian a datblygu'r maes chwarae. Cytuno bod posib dod i gytundeb yn dilyn trafodaeth pellach petai'r grwp yn fodlon derbyn cyfrifoldeb am y cae chwarae gan gynnwys cynnal a chadw.

Request to improve the play area at Maes Llwyn - residents have asked for permission to fundraise and develop the play area. It was agreed if the Maes Llwyn group agree to take over the responsibility of the park and maintenance an agreement may be drawn up subject to further discussions.

10 Dyddiad y cyfarfod nesaf/Date of next meeting

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth Tachwedd 24, 2015.

The next meeting will take place on Tuesday November 24 2015

Bu'r cyfarfod orffen am 20.00 / *The meeting closed at 20.00.*

CET10/2015